Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

NATURAL ENGLAND

Gwarchodfa Natur Genedlaethol

Fenn's, Whixall & Bettisfield Mosses

www.naturalengland.org.uk

Sut i ddod o hyd i ni

Mewn car
I ddarganfod mwy am Fawnogydd Fenn's and Whixall dilynwch yr arwyddion twristiaeth brown o Ellesmere i Whitchurch (A495), ffordd Whitchurch i Wem (B5476) neu Wem i Welshampton, i faes parcio Pont Morris (SJ 493355) wrth gamlas Llangollen, Whixall. Fe ellir parcio hefyd wrth Bont Roundthorn (SJ 501357).

I ddarganfod mwy am Bettisfield Moss, dilynwch y llwybr ffigiwr wyth o Faes Parcio World's End (ar ben yr ail ffordd ar y dde, i'r gorllewin o Bont Dobson, Whixall).

Ar drafnidiaeth gyhoeddus:
Mae'r orsaf reilffordd agosaf yn Prees, 4 milltir o'r Warchodfa. Nid oes unrhyw wasanaethau bysiau uniongyrchol rhwng Prees a Whixall. Mae'r arosfan agosaf yn Coton, 2 filltir o'r Warchodfa.

© Natural England / Peter Bowyer

Ymweld â'r Mawnogydd

Mae'r Warchodfa ger Llwybr 45 y Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol a Llwybr Beicio Rhanbarthol 31 (www.shropshirecycling.co.uk).

Mae llwybrau mynediad yn laswelltog neu'n fawnaidd, ac nid oes camfeydd yma. Fel arfer, mae'r llwybrau'n wastad, gyda grisiau'n mynd at y gamlas. Mae modd cael mynediad at y llwybr halio cadarnach o lwybr/ramp o feysydd parcio Pont Morris a Phont Roundthorn. Fe all ymwelwyr anabl yrru ar hyd yr hen reilffordd drwy drefnu ymlaen llaw.

Nid oes cyfleusterau bwyd na thoiledau ar y safle.



(h) Natural England 2010
Cod Catalog: NE271

Mae cyhoeddiadau Natural England ar gael ar ffurf pdf o: www.naturalengland.org.uk/publications Pe bai angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'n llinell gymorth i gael rhagor o wybodaeth: 0845 600 3078 neu ebost enquiries@naturalengland.org.uk

Wedi ei argraffu ar stoc yn cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Llun y clawr: Toriadau mawn masnachol wedi eu hadfer.
© Natural England / J L Daniels

Llwybrau'r Mawnogydd

Mae tri llwybr cylchol drwy'r Warchodfa, ac maent yn cysylltu â'i gilydd, gan ddilyn llwybr Camlas Llangollen. Mae'r llwybrau'n cychwyn naill ai o Bont Morris neu Randir Marl wrth Bont Roundthorn, sy'n croesi'r gamlas. (gweler y map yn y canol.)

Mae'r llwybrau'n amrywio o 2 gilomedr i 4 cilomedr o hyd, a gellir eu cyfuno i greu teithiau cerdded hwy o hyd at 7 cilomedr. Mae'r llwybrau, a nodir gan gyfres o arwyddbyst, yn hawdd eu cerdded.

Fe all yr amgylchedd naturiol fod yn beryglus. Os gwelwch yn dda:

- Cadwch at y llwybrau sydd wedi eu harwyddo. Mae'r Mawnogydd yn frith o ffosydd dwfn, llawn dŵr, sydd yn aml wedi eu cuddio gan lystyfiant.
- Peidiwch ag ysmygu ar y Mawnogydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Mae hyd yn oed danau bychain yn medru achosi llawer o ddifrod.

Gwiber

- Gwyliwch rhag gwiberod. Os cewch eich brathu, peidiwch â chynhyrfu, ac ewch am gymorth meddygol.
- Peidiwch â chasglu planhigion nac anifeiliaid.
- Cadwch eich cŵn ar dennyn o fis Mawrth tan fis Gorffennaf, a than reolaeth dynn fel arall.
- Gwyliwch am raffau angori, darnau o fetel, gwreiddiau a changhennau sy'n ymddangos uwchben y ddaear, bonion coed, tyllau a thuswau.

Nid yw marchogaeth a beicio'n ddiogel ar y llwybrau mawnaidd.

I gael rhagor o wybodaeth am ein rhaglen ddigwyddiadau a chyfleoedd gwirfoddoli, neu i gael gwybod sut i gael trwydded cyfnod hir er mwyn i chi gael darganfod mwy am y Warchodfa, cysylltwch â ni ar 0845 600 3078 neu edrychwch ar **www.naturalengland.org.uk**

Mae **Natural England** yma i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, er mwyn ei werth cynhenid, er lles a mwynhad pobl ac er mwyn y llwyddiant economaidd a ddaw yn ei sgîl.

Mae **Cyngor Cefn Gwlad Cymru**'n hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru, ynghyd â dyfroedd ei glannau, fel ffynonellau cyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sail i weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel llefydd y gellir hamddena a dysgu ynddynt. Ein nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywydau pawb yng Nghymru.
www.ccw.gov.uk

Mae **British Waterways** yn rheoli system y camlesi mewndirol er budd pobl Prydain.
www.britishwaterways.co.uk

Kingdom of Sphagnum where space and time interweave*

Gan bontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr ger Whitchurch, mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Mawnogydd Fenn's, Whixall & Bettisfield yn anialwch rhyfeddol. Yn ogystal â bod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae hefyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig Ewropeaidd ac yn Wlyptir o Bwysigrwydd Rhyngwladol.

Mae'r Mawnogydd bron yn 1,000 o hectarau, a dyma'r gyforgors sy'n drydedd o ran maint ac yn un o'r cyforgorsydd iseldir mwyaf deheuol ym Mhrydain.

Mae amgylchedd asidig a dwrlawn y Warchodfa'n gymorth i nifer eithriadol o blanhigion ac anifeiliaid arbenigol y gors ffynnu. Mae hyn, ynghyd â'r dystiolaeth ryfeddol o'r hen waith mawn a fu yma, yn golygu bod yna lawer i ymwelwyr ei fwynhau.

*dyfyniad o 'Echoing Green', casgliad o farddoniaeth gan Gladys Mary Coles, Gwasg Flambard 2001.

Wedi ei ffurfio ar ddiwedd yr Oes Iâ ddiweddaraf mewn dyffryn bas a lanwyd gan haenau o rew a oedd yn toddi, cromen o fawn migwyn a oedd yn tyfu'n araf oedd y gyforgors tir isel. Fe amsugnodd y migwyn y glaw a'i droi'n fwy asidaidd, gan greu haenen ddwrlawn ar wyneb y mawn. Oherwydd hyn, dim ond planhigion ac anifeiliaid arbenigol a lwyddodd i fyw yno. Fe gafodd planhigion marw, ynghyd â'r paill o'r llystyfiant ar y gors ac ar y tir cyfagos, eu 'piclo', gan greu haenau o fawn, sydd fel llyfrau hanes anferth o'r 12,000 o flynyddoedd diwethaf.

Mae bwyell o'r Oes Efydd, a ddarganfuwyd yn y mawn mewn haen o fonion pinwydden yr Alban a oedd yn 3,400 o flynyddoedd oed, a darganfod tri chorff dynol o'r Oes Efydd a'r cyfnod Brythonaidd-Rufeinig, yn dweud wrthym fod pobl wedi byw a gweithio yma am gyfnod hir iawn.

Mil o flynyddoedd o fawn

Migwyn magelanaidd

Torri'r mawn â llaw ar Fawnog Whixall

Mawn ar y Mawnogydd

Mae planhigion y gyforgors yn brin erbyn hyn gan fod cymaint o gorsydd wedi cael eu draenio ar gyfer torri mawn, amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae dyn wedi defnyddio'r mawn o'r Mawnogydd ers canrifoedd – ar gyfer tanwydd a distyllu ar y dechrau, yna fel gwellt ar gyfer ceffylau a ieir, ac ar gyfer pacio. Yn fwy diweddar, mae mawn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer tail i'r ardd.

Am 500 mlynedd, bu torri mawn ar raddfa fechan ar hyd ymylon y safle'n troi rhannau allanol y Mawnogydd yn gaeau a wnaed yn llai asidig gan galch a ddeuai ar hyd y gamlas o Langollen.

Fe gafodd y gors ei draenio ar ôl Deddfau Cau Tir 1777 a 1823, ar gyfer y gamlas yn 1804 ac yna wedyn pan gafodd y rheilffordd ei hadeiladu yn 1863. Fe achosodd draenio pellach ar raddfa eang ar gyfer torri mawn ar raddfa fasnachol yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf i gromenni dwrlawn y Mawnogydd ddymchwel yn llwyr.

Yn ystod yr 20fed ganrif, meddiannwyd y Mawnogydd ar gyfer defnydd milwrol yn ystod y Ddau Ryfel Byd, ac fe blannwyd fforestydd pinwydd mewn rhannau ohonynt yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf.

Fe ddechreuwyd torri mawn yn fasnachol gyda pheiriannau yn 1968, ond pan gynyddodd y torri mawn bedair gwaith yn 1989, fe lansiwyd ymgyrch i achub y Mawnogydd. Fe ddaeth y rhan ganol yn Warchodfa Natur Genedlaethol, ac yn 1990, fe ddaeth torri mawn ar raddfa fawr i ben.

Torri mawn yn difetha'r gorffennol

Bywyd Gwyllt ar y Mawnogydd

Mae Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi bod yn adfer y cynefin unigryw yma am bron i 20 mlynedd. Rydym wedi clirio coedwigoedd, coed a llwyni, wedi creu argae o'r mawn sydd wedi ei dorri er mwyn adfer lefelau dŵr, ac wedi rheoli dŵr ffo ar ôl stormydd.

O ganlyniad, mae mwsoglau'r gors a phlu'r gweunydd unwaith eto'n gorchuddio'r Mawnogydd. Mae adar dŵr, adar hirgoes a gwesynnod wedi dychwelyd, ac mae bron i 2,000 o rywogaethau o greaduriaid di-asgwrn-cefn yn ffynnu yma. Mae glöynnod byw y gweundir, picellwyr wynepwyn, criciedyn hirgorn y gors a chorynnod rafftio – a fu ar fin diflannu o'r tir – yn symud allan ar draws y gors o'u lloches yn yr hen fawn a dorrwyd â llaw ac yn y toriadau masnachol.

Yn y gwanwyn, edrychwch am bicellwyr pedwar-nod melyn a chlywch alwad yr hwyaid gwyllt, y gylfinir, yr ehedydd, corhedydd y waun a'r corhwyaid sy'n magu. Yn yr haf, mae hebogiaid yr ehedydd yn ymlid myrdd o wesynnod, ac mae'r troellwr mawr yn sugno cymylau o wyfynod y gwyll i'w grombil. Gwrandewch am sŵn plopian

Cricedyn hirgrwn y gors

Picellwr pedwar-nod

llygoden y dŵr – ond gofalwch beidio â sathru ar unrhyw wiberod sydd yn torheulo!

Yn y mannau gwlypaf, mae'r Mawnogydd wedi eu gorchuddio erbyn hyn â charpedi o 18 rhywogaeth o figwyn Sphagnum sy'n ffurfio mawn. Yma hefyd y mae pennau claerwyn gwanwynol plu'r gweunydd â'u dail coch a gwyrdd llachar a phlu'r gweunydd unben â'u dail siâp nodwyddau. Mae llugaeron, andromedra'r gors, llafn y bladur, a'r gwlithlys sy'n bwyta pryfed a chwysigenddail bach yn ymledu hefyd.

Yn y mannau sychaf, megis y llwybrau, mae llwyni bedw, rhedyn aur yr hydref a lleiniau gwynion y gaeaf o laswellt y gweunydd yn parhau i dyfu.

Corryn Rafft

Achub corsydd y byd

Mae torri mawn yn fasnachol yn prysur ddefnyddio mawn sydd wedi bod yn ffurfio dros filoedd o flynyddoedd. Mae cymaint o gyforgorsydd wedi cael eu draenio ar gyfer torri mawn neu i'w troi'n dir fferm neu goedwigaeth nes bod eu hanifeiliaid a'u planhigion arbennig yn awr yn brin.

Mae corsydd mawn hefyd yn dal ac yn cadw stôr enfawr o garbon. Mae torri'r mawn yn rhyddhau'r carbon yma i'r atmosffer ac yn cyflymu effeithiau niweidiol newid hinsawdd. Mae corsydd sydd wedi eu hadfer yn ail amsugno'r carbon.

Ym Mhrydain y mae cyfran fawr o gyforgorsydd y byd sydd yn dal mewn bodolaeth. Fe allwch gynorthwyo i achub ein corsydd ac arafu cyflymdra cynhesu byd-eang drwy wneud y canlynol:

- Gwnewch eich gwrtaith eich hunan.
- Prynwch wrtaith 'di-fawn' neu beth ag ychydig o fawn ynddo.
- Dewiswch blanhigion sydd wedi tyfu mewn gwrtaith 'di-fawn'.

© Natural England / J L Daniels

Mawn wedi ei dorri â llaw ac wedi ei adfer

Beth sydd i'w weld ar hyd Llwybrau'r Mawnogydd

Mae'r testun isod yn cyfeirio at blaciau celf ac arweinbyst sydd wedi eu rhifo ar hyd y llwybrau. I'ch cynorthwyo i fynd y ffordd iawn, dilynwch y symbolau sydd wedi eu lliwio i gydfynd â'r llwybr a ddewiswch. Mae rhai llwybrau llai oddi ar y prif lwybrau a chanddynt bwyntiau ychwanegol o ddiddordeb. Mae'r testun ar gyfer y rhain i'w weld yn y blychau isod.

Dŵr a ffen glan y gamlas 1 2

Mae helyglys pêr, gornerth y dŵr, briwlys y gors, iris farfog, cyrs, danadl poethion a phumdalen y gors i'w gweld ar ymyl y gamlas, a fu'n cludo cynnyrch a dŵr ffres o'r Gororau i Ellesmere Port. Gwyliwch yr agrionau tywyll, ieir bach yr haf a phryfed eraill yn casglu neithdar o flodau gwylltion, ac adar ysglyfaethus yn hela'r llygoden bengron goch a llygoden bengron y gwair. Mae'r gwrych drain, a blannwyd pan adeiladwyd y gamlas, yn cynnwys coed derw gyda bylchau rheolaidd rhyngddynt. Mae'r rhain yn cyflenwi coed i'w defnyddio ar y gamlas. Mae caeau gwlyb yn rhoi lloches i rywogaethau'r ffen a fyddai wedi amgylchynu'r gors naturiol cyn iddi gael ei draenio. Ar y gamlas, mae elyrch dof, hwyaid a ieir dŵr yn bwydo, tra bod dros 6,000 o gychod bob blwyddyn yn teithio dan yr 11 o bontydd cantilifrog unigryw ar eu ffordd at draphont ddŵr ysblennydd Thomas Telford ym Mhontcysyllte.

Torri mawn

c

Roedd mawn a oedd yn cael ei dorri â llaw i'w ddefnyddio mewn potiau, ac a oedd yn cael ei falu a'i hidlo yn sied trin mawn Albert Allmark, yn cael ei werthu ar gyfer gerddi, ac roedd blociau o dyweirch yn cael eu gwerthu fel tanwydd.

Rhandir marl

Llyffant dafadennog 3 4 5

Unig Dir Comin Whixall, lle roedd clai marl yn cael ei gloddio i'w ddefnyddio fel gwrtaith amaethyddol. Mae digonedd o ieir bach yr haf yma ar y glaswelltir llaith sydd heb ei wella ac mewn llennyrch ymysg y gwern gwlyb, yr helyg, y bedw a'r deri.

Caeau mawnaidd

4 5 c

Cafodd y fawnog yma, a gafodd ei draenio ar ôl Deddf Cau Tiroedd Comin 1823, ei throi yn gaeau. Mae pori ysgafn yn y gwanwyn yn ei gwneud yn bosibl i'r gylfinir a'r gornchwiglen nythu ar y ddaear, heb unrhyw berygl gan beiriannau amaethyddol. Tan yr 1940au roedd tai wedi eu leinio â mawn i'w gweld yn rhai o'r caeau yma.

Llygod pengrwn y dŵr

Llygoden bengron y dŵr 5 c

Mae llawer iawn o lygod pengrwn y dŵr, 'Ratty' enwog 'Wind in the Willows', wedi cael eu lladd drwy Brydain gan y minc. Maen nhw'n dal i fyw ar hyd y prif ffosydd sydd yn draenio'r Mawnogydd. Chwiliwch am eu tyllau yn ochrau'r ffosydd ac mewn darnau o lystyfiant yn arnofio ar wyneb y dŵr, a'r rheiny'n ddarnau 5 centimedr o hyd, wedi eu torri'n groes cornel.

Problemau gyda llygredd

6

Bwydir yr helyg, gwern, brwyn, cynffon y gath a dyfrllys y gors a geir yma gan elifiad a dŵr cyfoethog mewn mwynau sy'n dod o dai a ffermdir lleol. Mae hyn yn peri i fawn y gyforgors ddadelfennu.

Achub rhag diflannu

Y picellwr wynepwyn b

Mae gwesynnod a mursennod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hoes mewn dŵr. Mae draenio'r Fawnog yn eu difa. Roedd y picellwr wynepwyn prin, sy'n dodwy ei wyau mewn migwyn, bron â diflannu, Ond erbyn hyn mae wedi ymledu allan o'i gadarnle olaf i'r toriadau mawn masnachol sydd wedi eu hadfer.

Colli'r Fawnog

Gwiber 6 7 a 8 15

Mae bedw, rhedyn, pinwydd, grug a glaswellt y gweunydd, sydd yn felyn fel gwellt, i gyd yn blanhigion tir sych sydd yn prysur ymsefydlu ar doriadau'r mawn sydd wedi cael eu draenio a'u gadael. Dim ond yng ngwaelodion gwlyb y ffosydd y bydd planhigion y gors yn goroesi. Edrychwch am wiberod yn torheulo ar lwybrau sychach a grynnau mawn, a bwncathod yn dal cwningod.

Adfer y fawnog

Corryn Rafft 7 8 9 11

Unwaith y bydd y bedw a'r pinwydd wedi dod dan reolaeth, a'r ffosydd wedi eu hargáu, fe gedwir dŵr glaw yn y gors. Mae hyn yn atal twf planhigion tir sych ac yn

hyrwyddo gorchudd o figwyn Sphagnum sy'n ffurfio mawn. Chwiliwch am y grug deilgroes a'i flodau pinc, dail coch yr hesgen gyffredin a dail gwyrdd plu'r gweunydd unben sy'n debyg i nodwyddau. Sylwch ar gorynnod rafftio'n crwydro pyllau mawnaidd a 28 rhywogaeth y Warchodfa o wesynnod.

Adar gwlyptir yn niferus

Gïach gyffredin a Gylfinir 7 8 9 11

Mae ail wlychu'r Mawnogydd wedi gwella bywyd adar yn fawr iawn. Mae'r gylfinir a'r hwyaden wyllt yn ffynnu a'r gïachod yn niferus iawn yn y gaeaf. Mae corhwyaid a hwyaid llydanbig yn awr yn magu, a hebogiaid tramor yn elwa'n fawr. Rhowch wybod inni beth a welwch ar hyd y llwybrau.

Colli'r Fawnog

Melyn y drain 1 C 10 11

Pan fo ffosydd draenio'n cael eu gadael ar agor, mae toriadau mawn a chaeau sydd wedi eu gadael yn y gors yn fuan iawn yn troi'n goetir bedw a rhedyn, neu mewn mannau mwy llaith yn ddôl ffen gyda chyrs a ffen helyg, ac mae rhywogaethau prin y gors yn cael eu colli. Mae llwyni breuwydd yn lloches i'r glöyn byw, melyn y rhafnwydd, ac felly'n cael eu harbed pan fydd y fawnog yn cael ei hadfer.

Coedlan ffen

12 14

Mae amrywiaeth mawr o goed yn tyfu ar hyd ochr y gamlas, mewn gwrthgyferbyniad â'r hyn a geir ar y Fawnog, ble does dim ond coed bedw a phinwydd yn tyfu. Mae iris felen, cyrs a ffug hesgen yn tyfu yma mewn coedlan ffen wlyb o goed gwern a helyg, gyda phlanhigyn te Dug Argyll, rhosyn coch gwyllt, rhedyn, danadl poethion a mieri mewn mannau sychach. Chwiliwch am las y dorlan. Mae gosod polion dur yn ddiweddar wedi atal y gamlas – a oedd yn bygwth suddo - rhag gorlifo i'r gors.

Y ffin a Mawnog Bettisfield

13 18

Dim ond ffos gul a gloddiwyd yn 1826 yw'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ar draws y gamlas, y tu hwnt i'r ffen o goed gwern ar gyrion Mawnog Bettisfield, mae pinwydd ymledol wedi cael eu torri er mwyn adfer y gors.

Y dramffordd

15 16

Arferai rheilffordd gul dwy droedfedd o led fynd â'r mawn a oedd wedi ei dorri ar hyd y trac i hen weithfeydd y Fenn's. Mae prysgwydd yn cael eu cadw yma ac acw ger ymyl y Mawnogydd ar gyfer chwilod, gwyfynod ac adar megis bras y cyrs. **GOFAL: Cadwch bawb draw oddi wrth y brif ddraen sy'n ddwfn iawn ac sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r rheilffordd.**

Adar y rhostir

Tinwen y garn a Clochdar y Cerrig 16

Mae'r prif ddraen wedi achosi i gromen y gors ddymchwel i ffurfio pant yma. Ar lethrau grugiog wedi eu draenio mae tinwen y garn, clochdar y cerrig a'r ehedydd yn magu.

Hen weithfeydd y Fenn's

Troellwr mawr d e

Cafodd mawn ei falu a'i fyrnu yma o 1938 tan 1963 pan gaewyd prif lein y rheilffordd drwy'r Mawnogydd. Mae coedlan gyfagos yn rhoi cysgod i bryfed yn gynnar yn y flwyddyn. Mae'r caeau sydd ar godiad tir o amgylch y safle'n nodi ffiniau'r

gyforgors. Fe ellir gweld Mynydd Rhiwabon tua'r gogledd-orllewin. Gyda'r nos, mae'r troellwr mawr, a'i sŵn troelli hiraethus, yn sugno cymylau o wyfynod y gwyll i'w grombil yn yr ardaloedd o lwyni ymylol.

The Batters

16 17 18

Fe ddefnyddid y llwybr yma i ddod â mawn o'r Mawnogydd ar y rheilffordd gul i Hen Weithfeydd y Fenn.

Adfer toriadau mawn masnachol

Hebog yr ehedydd 16 17 18

Mae egin-blanhigion o hesg a migwyn bellach yn gorchuddio'r caeau torri mawn masnachol sydd wedi eu hadfer ar Fawnog Fenn's, ac a oedd yn foel ac yn sych ugain mlynedd yn ôl. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae gwesynnod yn darparu digonedd o fwyd ar gyfer hebog yr ehedydd. Mae lindys y gweirlöyn mawr y waun, sy'n arbennig i'r Mawnogydd, yn byw ar blu'r gweunydd unben ac mae'r oedolion yn yfed neithdar o'r grug deilgroes a'i flodau pinc.

Adar ysglyfaethus

Tylluan glustiog 9 18

Mae Oafs Orchard, canol uchel y Fawnog sydd heb ei dorri, a mannau grugiog eraill yn lloches i'r dylluan glustiog sy'n gaeafu. Edrychwch am adar ysglyfaethus eraill uwchben y mawn sydd wedi ei dorri â llaw ac wedi ei adfer yn Whixall.

Argent and sable moth / Brychan pennau saethau

Curlew / Gylfinir

Tiger Beetle / Chwilen deigr

Allwedd i'r symbolau

Mathau o doriadau yn y mawn

- P1 Ardaloedd heb eu torri
- P2 Toriadau llaw Beiblau Whixall
- P3 Hen doriadau llaw pobl leol.
- P4 Hen doriadau llaw masnachol
- P5 Toriadau llaw modern
- P6 Toriadau masnachol diweddar

Archeoleg

- A1 Haenen binwydd yn y mawn
- A2 Darganfuwyd bwyell o'r Oes Efydd yma
- A3 Darganfuwyd cyrff yn y gors yma

Y proffil mawn gorau i'w weld yn ardal P5

Trafnidiaeth

- T1 Rheilffordd o Ellesmere i'r Eglwyswen, 1862
- T2 Camlas y 'Shropshire Union', 1804
- T3 Tramffordd y Mawnogydd, 1880au

Ffatrïoedd mawn

- F1 Old Moss Works, 1850au
- F2 Old Shed Yard Works, 1886
- F3 Fenn's Bank Sidings, 1909
- F4 The Old Graveyard, 1916
- F5 Fenn's Old Works, 1938
- F6 Manor House, 1957

Defnydd milwrol

- M1 Meysydd Saethu Rhyfeloedd Byd 1 a 2
- M2 Meysydd Saethu'r 'Batters'
- M3 Maes ymarfer bomio'r Ail Ryfel Byd
- M4 Safle strategol 'Starfish' yr Ail Ryfel Byd